Cyngor ar Fesuryddion Talu Ymlaen Llaw

Ar 19.03.2020 cafwyd cyhoeddiad i'r wasg yn dweud na fyddai neb sydd â mesurydd talu ymlaen llaw yn cael ei ddatgysylltu. Bydd pob darparwr yn cynnig tair wythnos o gredyd mewn argyfwng.

Os nad ydych chi'n siŵr sut y byddwch chi'n:

- Rhoi mwy o gredyd ar eich cerdyn os yw llefydd ar gau
- Ymdopi os bydd yn rhaid i chi hunan-ynysu
- Fforddio talu os ydi'ch incwm yn llai

Cysylltwch â'ch darparwr yn uniongyrchol. Mae'n bwysig eich bod chi'n siarad efo nhw gan y byddan nhw'n gallu rhoi gwybod i chi pa fesurau sydd ganddyn nhw i'ch helpu.

BYDDWCH BAROD

Fedrwch chi:

Ychwanegu credyd dros y ffôn - efallai y bydd yn rhaid i rywun gasglu'r pwyntiau mewn man ychwanegu credyd ond gall rhywun wneud hyn ar eich rhan os ydych chi'n hunan-ynysu.

Ychwanegu credyd ar-lein - os nad ydych chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod yn gallu gwneud hyn mae modd enwebu person i weithredu ar eich rhan fel "trydydd parti". Bydd yn rhaid i chi siarad efo'r darparwr yn gyntaf.

Defnyddio gwasanaeth ychwanegu credyd awtomataidd - efallai bod angen trefnu hyn ymlaen llaw.

Cofiwch edrych ar ôl perthnasau, cymdogion, mamau ifanc ac unrhyw berson gyda chyflwr iechyd i sicrhau bod ganddyn nhw drefniadau yn eu lle.

SSE

Ychwanegu credyd ar-lein: www.sse.co.uk/topup

Llinell talu awtomataidd: 0121 621 4038 dewis 2

SWALEC

Rhif ffôn ar gyfer derbyn cyngor: 03450717806

Os oes arnoch chi angen cyngor ar ddyledion ffoniwch y Llinell Dyledion Genedlaethol.
Rhadffôn: **0808 808 4000**